x Pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael i gwblhau'r cwrs?

Mae bwrsariaeth ar gael drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae bwrsariaeth wedi'i gytuno ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau'r cwrs o 2022 ymlaen sy'n darparu cymorth ariannol tuag at ffioedd dysgu a chostau byw. Rhoddir cyfraniad hefyd trwy'r fwrsariaeth tuag at gostau lleoliad megis milltiredd. Ceir rhagor o fanylion yma https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygiad/cyllid-gradd-gwaith-cymdeithasol

Mae llawer o fyfyrwyr yn dewis parhau i weithio trwy gydol eu cwrs i gynnal eu hunain yn ariannol, ac mae'r amserlen gryno yn helpu myfyrwyr i wneud hyn.

x Pwy all wneud cais am y cwrs?

Mae gofynion mynediad penodol a nodir yma: https://www.bangor.ac.uk/courses/postgraduate-taught/social-work-ma#entryrequirements

Mae gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ystod eang o gefndiroedd a phrofiad. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo yr hoffent wneud gwahaniaeth a bod yn weithiwr cymdeithasol proffesiynol.

Mae gennym leoedd ar gyfer 21 o fyfyrwyr bob blwyddyn academaidd.

x Beth yw'r drefn gyfweld?

Pan fydd y cais am y cwrs yn bodloni'r holl ofynion, gwahoddir ymgeiswyr am gyfweliad er mwyn asesu ymhellach addasrwydd i ymuno â'r cwrs ar yr adeg hon.

Mae'r panel cyfweld yn cynnwys aelod o dîm addysgu'r brifysgol, aelod staff o bartneriaid yn yr awdurdodau lleol a chynrychiolydd cymunedol. Trefnir dyddiadau cyfweld ar amser sy'n gyfleus i bawb, a bydd yr ymgeisydd yn cael ei gefnogi i baratoi ar gyfer ei gyfweliad. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams.

x Beth yw cyfle neu leoliad dysgu ymarfer?